Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

# Llwybr Crib Gyfylchi
# Gyfylchi Ridgetop Trail

4




**Mae'r llwybrau coetir prydferth a golygfeydd syfrdanol yn gwneud y ddringfa 250 metr (dros 800 troedfedd) yn werth yr ymdrech.**

**Beautiful wooded walks and breathtaking views make the 250 metre (over 800 feet) climb worth the effort.**

Dilynwch ffyrdd y goedwig, llwybrau caregog a rhodfeydd. Mae'r llwybr yma'n eithaf serth ac awgrymwn eich bod yn gwisgo esgidiau cerdded a dillad gwrth-ddŵr.

Follow forest roads, stony tracks and paths. This walk is quite steep in places so we recommend walking boots and waterproofs.

**5.5m/10cm (anodd)**
**3.5 awr**
**Dechrau:** Canolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan neu faes parcio Gyfylchi

**5.5m/10km (strenuous)**
**3.5 hours**
**Start:** Afan Forest Park Visitor Centre or Gyfylchi car park

# 4 Llwybr Crib Gyfylchi
# Gyfylchi Ridgetop Trail








❹

O'r Canolfan Ymwelwyr ewch i lawr tuag at afon Afan lle mae'r **Rhyd❶** yn dyddio'n ôl i'r 12fed canrif. Ar ôl croesi'r afon ewch am dro i'r dde drwy goedwigoedd llarwydd lle mae'r derw a'r bedw'n dechrau tyfu. Ar ochr arall i'r afon ceisiwch gael cipolwg o'r domen glo gwastraff sef hen domen **Glofa Cynonville❷** sydd nawr wedi ei guddio gan goed a llwyni.

Dringwch i fyny'r llwybr drwy goed pyrwydd, ac yna ar hyd llwybr caregog. Ar ôl dringfa serth ewch fewn i'r goedwig unwaith eto drwy goed ffawydd ucheldir a tuag at adfeilion **Fferm Nant y Bar❸** ( lle delfrydol i gael picnic).

O'r grib gellir gweld golygfeydd ardderchog o Bae Abertawe a'r Mwmbwls, harbwr Port Talbot a morlin Gwlad yr Haf. Arhoswch wrth adfeilion **'Capel Anwes' 18fed canrif Gyfylchi❹** (man cychwyn arall). Nid yn unig roedd yn gapel pwysig yn natblygiad Methodistiaeth Cymraeg ond hefyd roedd yn le pwysig i deithwyr orffwys a gweddïo wrth deithio i'r gogledd/de ar y llwybr crib hynafol.

I ymestyn eich taith ewch o Gapel Gyfylchi ar hyd Taith Penrhys i Fynydd Penrhys sydd wedi ei arwyddbystio'n wyrdd. Fel arall dilynwch lwybr caregog i lawr y dyffryn cyn dringo nôl i fyny ochr y dyffryn tuag at y Canolfan Ymwelwyr.

From the Visitor Centre, drop down to the river Afan to a 12th century **ford❶**. After crossing the river take the easy riverside stroll to the right through larch woodland where oak and birch are starting to grow. On the other side of the river try to spot the spoil heaps of the old **Cynonville Colliery tip❷** now masked by trees and shrubs.

Climb up a path through spruce woods, then up a stone track. After a steep climb enter the forest again through upland beech woods to the ancient ruins of **Nant y Bar Farm❸** (good stop-off point for a picnic).

Along the ridgetop, wonderful **views** open up of Swansea Bay and The Mumbles, Port Talbot harbour and the Somerset coastline. Stop at the ruins of the **18th century Gyfylchi 'Chapel of Ease'❹** (alternative starting point). This was an important chapel in the development of Welsh Methodism, but was also an important place of rest and prayer for the earlier travellers journeying north/south on an ancient ridgeway track.

To extend your walk pick up the green-waymarked Penrhys Walk to Mynydd Penrhys from Gyfylchi Chapel. Otherwise follow the stone track down to the valley bottom before climbing back up the valley side to the Visitor Centre.

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Comisiwn Coedwigaeth Cymru. PGA 100025498. 2006
© Crown Copyright. All rights reserved. Forestry Commission Wales. PGA 100025498. 2006